# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 11eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Jean Roberts, Catrin Roberts a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards a Geraint Jones.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Gwteri a ffosydd angen eu hagor o Cyffdy lawr i bentref Parc. Cafwyd cadarnhad y byddai'r Arolygwr Priffyrdd yn cael golwg ar y safle pan fydd tywydd gwlyb ac yna'n cymryd unrhyw gamau angenrheidiol. Yn dilyn hyn roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddyd i ymgymryd a'r gwaith.
ii) Ffos Ty'n Bryn, Rhyduchaf – cais i orffen gosod peipen a chau ffos agored fel y gwnaed ar ran ohonni llynedd. Cafwyd cadarnhad fod y gweithlu wedi cael cyfarwyddyd i ymgymryd a'r gwaith.
b) Partneriaeth Penllyn/ Cwmni Pum Plwy Penllyn – yn dilyn trafodaeth, cytunodd Catrin Roberts i fynychu'r cyfarfodydd ar ran y Cyngor.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cynllun Rhannu Cartref.

b) Un Llais Cymru.
i) Rheolau Sefydlog newydd – cymeradwywyd i'w mabwysiadwy'.

c) Amrywiol.
i) Triathlon Bala – diweddariad.
ii) Arolwg Cysylltedd Cymru.
iii) Cadwch Gymru'n Daclus - Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
iv) Digwyddiad 'Ardal Ni 2035' Dalgylch Bala Penllyn - 25.5.2023. Cafwyd adroddiad gan Arwel Davies o'r hyn a drafodwyd.
v) Eglwys y Drindod Sanctaidd Penrhyndeudraeth – Gardd Llonyddwch.
vi) Dŵr Cymru - diweddariad Llyn Celyn.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ac nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-
NP5/72/134P – Ail-leoli ystafell fyw. Llain 4, Maes Gwyn, Rhyduchaf.
NP5/72/151C – Trosi sgubor i lety gwyliau, creu ffordd mynediad a gosod uned trin carthion. Cyffdy, Parc.

**vi) Materion Ariannol**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh).
ii) TWE.
iii) Printer newydd i'r Clerc (1/2 y gost gyda Chyngor Cymuned Llandderfel).

c) Ceisiadau Ariannol.
i) Derbyniwyd cais gan Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'i drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen:-
i) Coeden yn pwyso fewn i'r ffordd rhwng Penbryncoch a Plas Madog.
ii) Gwli rhwng top rhiw Parc i gyfeiriad Penbryncoch (Beudy Rhydyrefail) wedi malu ac angen sylw.
iii) Gor-yrru ar y A4212 a'r B4391 – roedd pryder fod cerbydau yn defnyddio'r ffyrdd fel trac rasio ac roedd hyn wedi dod yn fwy amlwg ers i gamerau cael eu gosod ar yr ardal 'Evo Triangle' Cerrigydrudion.
iv) Grid gwartheg Tai Hirion ger cyffordd yr B4391/A4212 yn llawn tyfiant/llanast ac angen ei glirio gan fod defaid yn croesi drosto ac o flaen cerbydau ac gallai hyn achosi damwain.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 12fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….